Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Heddlu • Police
DYFED-POWYS

RYDYM YN CHWILIO AM

# PRIF GWNSTABL

YSBRYDOLEDIG



## Pecyn Gwybodaeth Recriwtio




**Ymholiadau**
Carys Morgans
Prif Weithredwr a Swyddog Monitro SCHTh

**Ffon**
01267 226440

**E-bost**
carys.morgans@dyfed-powys.police.uk


**Dyddiad Cau**
5yh Awst 29ain 2025

**Mae'r pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth i'ch helpu i ddod i ddeall mwy am Heddlu Dyfed-Powys, ardal y Llu a'r hyn mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Dafydd Llywelyn, yn chwilio amdano yn ei Brif Gwnstabl nesaf.**

# CYNNWYS Y PECYN GWYBODAETH RECRIWTIO


| | |
|---|---|
| Neges oddi wrth Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu | 2 |
| Trosolwg o Heddlu Dyfed-Powys | 3 |
| HMICFRS | 5 |
| Ffeithiau Allweddol | 6 |
| Trosolwg o'r Swydd | 7 |
| Manyleb Person | 10 |
| Y Fframwaith Cymhwysedd a Gwerthoedd | 12 |
| Telerau ac Amodau | 17 |
| Y Broses Recriwtio | 19 |


Heddlu • Police
DYFED-POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# NEGES ODDI WRTH COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

"Mae’n rhaid i’r cyhoedd aros yng nghanol pob dim a wnawn a phob penderfyniad a wneir"

Fel y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mae'n fraint gennyf benodi Prif Gwnstabl newydd ar ran cymunedau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Diolch am ddangos diddordeb yn rol Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys.


Cydnabyddir Heddlu Dyfed-Powys fel un o'r ardaloedd heddlu gwledig mwyaf yng Nghymru a Lloegr,. Mae ganddo enw da am ei ffocws cymunedol, gyda'i fodel Plismona Bro ac Atal wrth galon darparu gwasanaethau. Mae'n ardal hardd, prin ei phoblogaeth ac rwy'n teimlo'n bod ni'n ffodus iawn i fyw a gwasanaethu'r cyhoedd yma. Fodd bynnag, mae'r union bethau sy'n gwneud yr ardal hon mor arbennig hefyd yn cyflwyno heriau plismona unigryw a chymhleth sydd angen arweinyddiaeth ddynamig ac ysbrydoledig amlwg.

Mae gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys yn rhan anhepgor o'r cymunedau rydyn ni'n plismona, ac mae'r berthynas unigryw hon yn hollbwysig. Mae'n rhaid i'r cyhoedd aros yng nghanol pob dim a wnawn a phob penderfyniad a wneir. Rydw i'n chwilio am Brif Gwnstabl sydd yn arweinydd cryf, dynamig, ysbrydoledig, gweledigaethol a dewrymroddedig, profiadol a gwirioneddol a fydd yn ymgysylltu'n amlwg â'i weithlu, partneriaid a chymunedau lleol.

Bydd eich profiad mewn gorfodi'r gyfraith, ynghyd â'ch meddwl strategol a'ch ymagwedd arloesol, yn amhrisiadwy o ran cyflenwi fy Nghynllun Heddlu a Throseddu a datblygu ein cenhadaeth. Fel Prif Gwnstabl, byddwch chi'n gyfrifol am oruchwylio holl agweddau gweithredol yr heddlu. Byddwch yn cyflwyno dulliau plismona creadigol sy'n sensitif i'n cymunedau ac sy'n cydnabod gwahaniaethau diwylliannol ac ieithyddol yr ardal. Byddwch yn meithrin diwylliant o ragoriaeth ac atebolrwydd. Bydd eich arweinyddiaeth yn allweddol i fynd i'r afael â'r heriau amrywiol rydyn ni'n eu hwynebu gan ymddygiad gwrthgymdeithasol a mynd i'r afael â throsedd, i wella plismona amlwg mewn cymunedau lleol a gwella ffydd a hyder mewn gwasanaethau plismona.

Fel Prif Gwnstabl, bydd angen ichi nodi ac adnabod prif ddiben plismona; sef gwasanaeth. Mae hyn yn golygu gwasanaeth i bawb – y tu mewn i'r sefydliad a thu allan iddo. Mae'n hollbwysig eich bod chi'n weladwy ac yn hygyrch o fewn y swydd. Byddwch yn lysgennad dros yr heddlu yng Nghymru, gyda'r gallu i ddatblygu a chryfhau partneriaethau newydd a phresennol. Bydd angen ichi ddangos sut mae'ch sgiliau a'ch galluoedd yn bodloni anghenion rol y swydd ac yn medru gwneud gwir wahaniaeth i blismona a chyhoedd canolbarth a gorllewin Cymru.

Os ydych chi'n teimlo'n angerddol am wneud gwahaniaeth ac mae gennych chi'r sgiliau a'r profiad i arwain ein heddlu, fe'ch anogaf i ymgeisio am y swydd effeithiol a gwerth chweil hon.



Dafydd Llywelyn
Comisiynydd Heddlu a Throsedd



# TROSOLWG O HEDDLU DYFED-POWYS

- Ardal Heddlu mwyaf Cymru
- Dros 1miliwn hectar o dir amaethyddol
- 350milltir o arfordir



Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gwasanaethu cymunedau **Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.** Yn ymestyn dros 4,188 milltir sgwâr, Dyfed-Powys yw'r ardal heddlu ddaearyddol fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Gyda 13,842 o filltiroedd o ffyrdd, dau borthladd mawr, 350 milltir o arfordir ac ardaloedd helaeth o gefn gwlad, mae'r ddaearyddiaeth yn cyflwyno heriau sylweddol o ran galw ac adnoddau i ni.

Mae'r boblogaeth breswyl o 518,062 wedi'i gwasgaru ar draws ardaloedd gwledig helaeth, trefi gwyliau a threfi marchnad ac ardaloedd mwy poblog. Mae atyniad twristiaeth yn cyflwyno gofynion unigryw gyda nifer fawr o dwristiaid yn ymweld â threfi allweddol. Mae hyn yn cyflwyno ei oblygiadau ei hun ar gyfer troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phlismona ffyrdd.

Fel yr ardal heddlu mwyaf yng Nghymru, mae Dyfed- Powys yn gweithio mewn partneriaeth â phedwar awdurdod lleol ac mae ganddo fwrdeistrefi plismona lleol gydffiniol. Y tu hwnt i'r pedair sir, yr ydym hefyd yn cydweithio ar sail tri heddlu a Chymru gyfan mewn perthynas â chyfrifoldebau plismona.

Mae plismona bro yn parhau i fod wrth wraidd y gwaith o gyflawni gweithredol ac mae "Cynllun Plismona Bro ac Atal" newydd wedi'i ddatblygu gan yr heddlu. Mae Timau Atal Plismona Bro yn ymdrechu i ddeall a lleddfu pryderon ein cymunedau, gan weithio'n ddiflino i fagu hyder y cyhoedd. Byddant yn parhau i ddatblygu a meithrin perthnasoedd i gefnogi cymunedau, er mwyn galluogi dull plismona a arweinir gan y gymuned.

Drwy weithio'n agos gyda'n cymunedau, partneriaid a sefydliadau trydydd sector, byddant yn integreiddio ymgysylltiad cymunedol â'r model gweithredu plismona bro ac atal. Maent yn sicrhau canolbwyntio ar y cyd ar ddatrys problemau, atal ac ymyrraeth gynnar i ddod â chyfreithlondeb a hyder gwell i gymunedau ardal Dyfed-Powys. Bydd y timau bro yn annog ymgysylltu ag unigolion a chymunedau trwy blismona gweladwy rheolaidd a chyfleoedd ymgysylltu. Bydd hyn yn eu helpu i adnabod a blaenoriaethu'r materion y mae angen mynd i'r afael â hwy fwyaf mewn ardaloedd lleol.

# TROSOLWG O HEDDLU DYFED-POWYS

- **101 o Droseddau yn cael ei cofnodi'n ddyddiol**
- **162 o alwadau 999 & 464 o alwadau 101 yn ddyddiol**




Er mwyn bodloni blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throseddu newydd y Comisiynydd, mae'r Prif Gwnstabl, ar ôl ymgynghori â'r holl uwch-reolwyr, wedi nodi nifer o flaenoriaethau cyflenwol. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i ddatblygu ei gynlluniau cyflawni manwl ymhellach, fel y dangosir isod




**Mae ffocws a chraffu parhaus ar berfformiad yr heddlu gan Arolygiaeth Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS), y Swyddfa Gartref, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Swyddogion.**

**Mae'r gwaith hwn yn mesur y cynnydd a'r gwelliannau sy'n cael eu cyflawni ar draws Dyfed-Powys.**




Mae craffu ar berfformiad ar lefel heddlu a chyflwyno 'dangosfyrddau perfformiad gweithredol' yn rhoi data cywir, dibynadwy ac ystyrlon i swyddogion, goruchwylwyr a rheolwyr sydd nid yn unig yn cynorthwyo ac yn cefnogi swyddogion, ond sydd hefyd yn dangos sut mae perfformiad lleol yn cyfrannu ac yn effeithio ar gyflawni blaenoriaethau ac amcanion yr heddlu'n eang.

# HMICFRS

Cyhoeddodd HMICFRS ei asesiad PEEL (Police Effectiveness, Efficiency and Legitimacy) diweddaraf ym mis Tachwedd 2023. Er cydnabuwyd sawl agwedd gadarnhaol, mae nifer o feysydd lle ystyriwyd eu bod yn ofynnol i wneud gwelliannau. Mae gwaith sylweddol wedi bod yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r meysydd hyn, gyda buddsoddiad cynlluniedig cysylltiedig i hybu'r broses o ddarparu gwasanaethau, cyn rhaglen arolygu PEEL nesaf HMICFRS ar gyfer 2025-27.

## Asesiad HMICFRS 2023-25

| CWESTIWN CRAIDD HMIC | GRADD |
|---|---|
| Pwerau'r heddlu a thrin y cyhoedd yn deg ac yn briodol | Digonol |
| Atal a rhwystro troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a lleihau bregusrwydd | Digonol |
| Ymateb i'r cyhoedd | Digonol |
| Ymchwilio i droseddau | Digonol |
| Diogelu pobl fregus | Angen gwella |
| Rheoli troseddwyr a phobl dan amheuaeth | Digonol |
| Adeiladu, cefnogi a diogelu'r gweithlu | Angen gwella |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth yr heddlu | Digonol |

Mae hyn yn cyflwyno cyfle gwirioneddol i'r Prif Gwnstabl nesaf anelu at gyflenwi gwasanaeth neilltuol.

Cyllideb refeniw net Heddlu Dyfed-Powys yn 2025/26 yw £153.303 miliwn. Mae'r gyllideb yn cefnogi cyflenwi Cynllun Heddlu a Throseddu CHTh sy'n canolbwyntio ar y canlynol:


- Cefnogi dioddefwyr ac atal erledigaeth
- Cefnogi cymunedau mwy diogel drwy atal niwed
- Cefnogi System Cyfiawnder Troseddol fwy effeithiol

Yr her allweddol dros y cyfnod hwn fydd cyflenwi'r arbedion sydd angen er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys heb effeithio ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr Heddlu, Rhaid gwneud hyn wrth gynnal nifer y swyddogion heddlu a gweithredu rhaglen Diwygio'r Heddlu y Llywodraeth,

**Dolenni defnyddiol:**

- Pwyllgor Dethol
- Y Praesept a'r cynllun ariannol trymor canolig 2025-26
- Hysbysiad Praesept 2025-2026
- Cynllun Heddlu a Throseddu 2025-29

# FFEITHIAU ALLWEDDOL



Poblogaeth

**518,062**

Twristiaeth

**Hyd at 8miliwn y flwyddyn**

Ardal

**4188 milltir sgwar**

Nifer Troseddau Blynyddol

**36,875 o droseddau blynddol yn cael eu recordio (23/24)**

Nifer o Swyddogion Heddlu

**1299 (23/24)**

Nifer o Staff Heddlu

**964 (23/24)**

Nifer o PCSOs

**132 (23/24)**

Nifer o Awdurdodau Lleol

**4**

**Yn archwiliad PEEL 2023/25 Heddlu Dyfed-Powys, canfu AHGTAEM:**

- bod effeithiolrwydd yr heddlu o ran lleihau trosedd a chadw pobl yn ddiogel yn dda;
- bod angen gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd yr heddlu; a
- bod angen gwella cyfreithlondeb yr heddlu (y ffordd y mae'n trin y cyhoedd a'i weithlu).

**Asesiad PEEL Heddlu Dyfed-Powys**

# TROSOLWG O'R SWYDD

**Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n gwahodd ceisiadau gan ymgeiswyr neilltuol â dull arwain dilys, sy'n arddangos y lefel uchaf o onestrwydd a meddwl strategol arloesol. Mae angen i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys fod yn unigolyn dynamig gyda'r ymrwymiad i reoli, ysgogi ac arloesi yn gyfartal.**

## Pwrpas y Swydd

Fel Prif Gwnstabl, byddwch chi'n gyfrifol am gyfeiriad a rheolaeth o Heddlu Dyfed-Powys yn unol â Deddf yr Heddlu 1996. Byddwch yn darparu cymunedau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys â gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon, a chyflawni holl rwymedigaethau statudol a chyfreithiol swydd Prif Gwnstabl.

Mae gan y Prif Gwnstabl gyfrifoldeb cyffredinol am arwain yr Heddlu, gan greu gweledigaeth a sefydlu cyfeiriad a diwylliant sy'n datblygu hyder a ffydd y cyhoedd a'r sefydliad, ac yn galluogi cyflenwi gwasanaeth plismona proffesiynol, effeithiol ac effeithlon.

Mae'r Prif Gwnstabl yn dal atebolrwydd uniongyrchol am gyflenwi gweithredol gwasanaethau plismona ac arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol yr ymateb plismona i droseddau a digwyddiadau mawr ac argyfyngus.

Bydd y Prif Gwnstabl yn llysgennad dros blismona yng Nghymru, gyda'r gallu i ddatblygu a chryfhau partneriaethau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Bydd y daliwr swydd yn ymgysylltu'n amlwg â'r gweithlu, partneriaid a chymunedau lleol er mwyn sicrhau bod yr Heddlu'n addas ar gyfer y diben ac yn cyflenwi canlyniadau diriaethol.

Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gyfrannu at blismona rhanbarthol a chenedlaethol drwy ddarparu gwasanaeth plismona effeithiol.

Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gyfrannu at blismona rhanbarthol a chenedlaethol drwy ddarparu gwasanaeth plismona effeithiol ac effeithlon, a gall fod yn atebol am weithrediadau cenedlaethol neu osod safonau.

Fel Corfforaeth Undyn, mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gyflenwi holl rwymedigaethau statudol a chyfreithiol swydd Prif Gwnstabl a chydymffurfio ag unrhyw Gynlluniau Llywodraethu neu Gydsyniad sy'n pennu trefniadau llywodraethu'r heddlu.

# TROSOLWG O'R SWYDD (PARHAD)

**Disgwylir i'r Prif Gwnstabl:**

- Sefydlu a sicrhau gweithredu strategaeth sefydliadol a gweithredol ar gyfer plismona yn Nyfed-Powys, gan ystyried y Cynllun Heddlu a Throseddu a'r Gofyniad Plismona Strategol ac unrhyw gynlluniau ac amcanion ehangach, er mwyn darparu gwasanaeth plismona effeithiol ac effeithlon sy'n bodloni gofynion plismona presennol a rhai'r dyfodol..

- Datblygu perthynas strategol gyd-gynhyrchiol â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn unol â gofynion y Protocol Plismona, tra'n cyflawni'r holl rwymedigaethau cyfreithiol a statudol fel Corfforaeth Undyn.

- Darparu arweiniad dynamig, proffil uchel i'r Heddlu, gan gyfathrebu cyfeiriad clir, hyrwyddo'r safonau proffesiynol a moesegol uchaf, a harneisio potensial llawn staff tuag at amcanion yr Heddlu drwy greu amgylchedd lle mae pobl wedi'u cymell a'u hysbrydoli i roi o'u gorau.

- Arwain, ysbrydoli a chynnwys y Tîm Prif Swyddogion, gan osod a modelu ymagweddau tuag at ddiwylliant gweithlu sy'n hyrwyddo lles, ac yn hwyluso rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol effeithiol er mwyn creu timoedd grymus sy'n galluogi cyflawni nodau'r Heddlu a'r Cynllun Heddlu a Throseddu'n effeithiol.

- Datblygu a chynnal trefniadau a phrosesau llywodraethu o fewn yr heddlu er mwyn sicrhau penderfyniadau effeithiol a chamau priodol ar bob lefel/haen o'r sefydliad.

- Dal atebolrwydd ar gyfer rheolaeth ariannol yr Heddlu a phennu cyllidebau swyddogaethol o fewn y fframwaith y cytunwyd arno, fel y cyhoeddir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, er mwyn sicrhau'r defnydd effeithiol o wariant cyhoeddus ac uchafu gwerth am arian.

- Sicrhau fod y Sefydliad yn cyflawni perfformiad uchel gan gyflwyno cymorth ardderchog i ddioddefwyr, bod yn ddygn o ran dwyn troseddwyr i gyfiawnder, a sicrhau lefelau bodlonrwydd a hyder cyhoeddus uchel.

- Cyflawni cyfrifoldebau awdurdodi Prif Gwnstabl e.e. awdurdodi gwyliadwriaeth ymwthiol a chynnal goruchwyliaeth weithredol, gan fod yn atebol am ymatebion plismona effeithiol a chydsyniol, er mwyn amddiffyn y cyhoedd a datblygu strategaethau gweithredol yr Heddlu ymhellach.

- Datblygu a chynnal perthnasau strategol gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan ddylanwadu a chydweithio'n effeithiol er mwyn cyfrannu at welliannau a newid yn y cyd-destun gweithredu ehangach a galluogi cyflawni amcanion yr Heddlu.

# TROSOLWG O'R SWYDD (PARHAD)

### Pwrpas y Swydd

- Adeiladu perthnasau cryf â phartneriaid yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i ddeall cyd-destun gweithredu ehangach y gwasanaeth heddlu a dylanwadu ar bolisi cymdeithasol a meysydd cysylltiedig
- Cynnal goruchwyliaeth gweithredol o'r ymateb plismona i ddigwyddiadau argyfyngus drwy ddealltwriaeth o'r materion strategol o gwmpas plismona gweithredol.
- Ystyried y Gofyniad Plismona Strategol wrth arfer a chynllunio swyddogaethau plismona mewn perthynas â chyfrifoldebau plismona cenedlaethol a rhyngwladol yr Heddlu.
- Cynrychioli'r sefydliad ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i hyrwyddo amlygrwydd, cysylltu â'r cyhoedd ac adeiladu hyder mewn plismona.
- Creu a gyrru diwylliant o ddatblygiad, newid ac arloesedd a datrys problemau er mwyn sicrhau gwell cynhyrchiant, gwerth am arian a gwella parhaus mewn plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Chwarae rhan weithredol mewn penderfyniadau cenedlaethol ar ddatblygiad y Gwasanaeth Heddlu er mwyn galluogi cydlynu gweithrediadau, diwygiadau a gwelliannau mewn plismona yn effeithiol a darparu gwerth am arian.



# MANYLEB PERSON

**Profiad:**
**Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu dangos:**

- Ei f(b)od wedi cymhwyso fel rhai cymwys i gael eu penodi'n brif swyddog heddlu trwy gwblhau'r ganolfan asesu genedlaethol uwch heddlu (PNAC uwch) a'r cwrs gorchymyn strategol (SCC) yn llwyddiannus, byddant yn gymwys i gael eu penodi'n barhaol i rôl prif swyddog heddlu.);

- Ei f(b)od wedi cwblhau'r Rhaglen Arweinwyr Gweithredol (ELP) - cam 5 yn llwyddiannus fel rhan o garfannau 1 a 2, byddant yn gymwys i gael eu penodi'n barhaol i rôl prif swyddog heddlu. Bydd swyddogion heddlu sydd wedi dangos y safon sylfaenol yng nghanolfan ddatblygu ELP - cam 5 ac wedi cwblhau carfannau 3 a 4 o'r ELP yn llwyddiannus hefyd yn gymwys i gael eu penodi'n barhaol i rôl prif swyddog heddlu.;

- Ei f(b)od neu wedi bod yn Ddirprwy Brif Gwnstabl parhaol neu'n Brif Gwnstabl Cynorthwyol eithriadol neu gyfwerth;

- Ei f(b)od yn Awdurdodi Hyfforddiant Swyddogion;

- Cymhelliad ac uchelgais, gyda'r gallu i gyflwyno safonau uchel;

- Arweinyddiaeth gref, yn fewnol ac yn allanol, ac yn arbennig cyfathrebu effeithiol ac ymgysylltu llwyddiannus â phartneriaethau yn y sectorau cyhoeddus, preifat, a gwirfoddol;

- Profiad o weithredu datblygiad, newid ac arloesedd sefydliadol llwyddiannus; Profiad o weithredu fframwaith rheoli perfformiad effeithiol;

- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol a phersonol parhaus, â gwybodaeth heddlu gweithredol ddiweddar;

- Profiad o atebolrwydd ar gyfer rheoli cyllidebau sylweddol;

- Y gallu i weithio'n effeithiol gyda Chomisiynydd Heddlu a Throseddu.



# PERSON SPECIFICATION (CONT)

**Profiad:**
**Byddai'n ddymunol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos:**

- Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o anghenion penodol plismona gwledig;
- eu bod wedi ymrwymo i ymgorffori eu hunain yng nghymunedau ardal Dyfed-Powys, ac felly, disgwylir y byddant yn byw yn ardal yr Heddlu am y rhan fwyaf o'u cyfnod yn y swydd.
- Deall y cyd-destun Cymreig, gan gynnwys yr angen i ddeall a pharchu iaith a diwylliant unigryw cymunedau lleol o fewn yr ardal a'r gallu i arwain heddlu dwyieithog.
- Parodrwydd i ddysgu Cymraeg sylfaenol o leiaf, er mwyn cysylltu â chymunedau lleol. Bydd y Comisiynydd yn annog hyn, ac yn sicrhau bod cymorth a hyfforddiant addas ar gael o ran y Gymraeg.






# GWERTHOEDD

## FFRAMWAITH CYMHWYSEDD A GWERTHOEDD

**Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgorffori a gweithredu yn unol â'r egwyddorion a'r safonau plismona a nodir yng Nghod Moeseg y Coleg Plismona yn ogystal â gwerthoedd Dewrder, Parch ac Empathi a Gwasanaeth Cyhoeddus fel y'u disgrifir yn y Fframwaith Cymhwysedd a Gwerthoedd (FCG) ar gyfer Plismona. Fel Prif Gwnstabl, disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos y cymwyseddau a'r gwerthoedd a fanylir ar lefel 'Weithredol' y FCG ar gyfer Plismona.**

### Dewrder


- Mae hyn yn golygu gwneud penderfyniadau, cyfathrebu amdanynt a bod yn atebol amdanynt, a sefyll yn erbyn unrhyw beth a allai ddwyn anfri ar ein proffesiwn.

- Pan fyddwn yn cael ein cymell gan ddewrder, rydym yn cynnal safonau moesegol y gwasanaeth heddlu yn weithredol fel ein bod yn gwneud y peth iawn hyd yn oed pan fo'r amgylchiadau'n anodd. Rydym yn gosod esiamplau da, yn herio ymddygiad amhroffesiynol a phob math o rhagfarn ac ymddygiad gwahaniaethol, ac unrhyw weithgaredd sy'n tanseilio didueddrwydd plismona.

- Rydym yn meithrin ac yn cynnal hyder y cyhoedd, ein cydweithwyr a'n partneriaid trwy y ffordd rydym yn ymddwyn. Rydym yn cynnal ffiniau proffesiynol gyda'r rhai rydym yn eu gwasanaethu ac yn gweithio gyda nhw i helpu i amddiffyn ein hunain a'r rhai o'n cwmpas.

- Rydym yn agored ynglŷn â'r hyn a wnaethom a pam ac yn cadw at ein haddewidion fel y gellir dibynnu arnom pan fo angen. Rydym yn cefnogi amgylchedd lle gellir codi, cwestiynu, herio, adrodd a mynd i'r afael â materion moesegol neu weithredoedd amhroffesiynol.

- Rydym yn onest ac yn agored yn ein rhyngweithiadau a'n gwneud penderfyniadau. Mae gennym y dewrder i ymateb i feirniadaeth gyda phroffesiynoldeb.






# GWERTHOEDD (PARHAD)

### Parch ac Empathi

- Mae hyn yn golygu annog, gwrando ar a deall barn eraill, a cheisio cydnabod ac ymateb i'r heriau corfforol, meddyliol ac emosiynol y gallwn ni a phobl eraill eu hwynebu.
- Pan fyddwn yn cael ein cymell gan barch ac empathi, rydym yn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael eu gwrando. Rydym yn eu trin ag amynedd a chwrteisi lle bo modd, gan gydnabod weithiau y gallai fod angen i ni flaenoriaethu diogelwch. Rydym yn rhoi cyfleoedd iddynt rannu eu barn a chymryd y safbwyntiau hyn i ystyriaeth. Rydym yn ceisio deall safbwyntiau pobl eraill a chydnabod y gallant wahanu oddi wrth ein safbwyntiau ni.
- Rydym yn ymgysylltu â phobl sydd ag ystod eang o brofiadau ac anghenion ac yn darparu gwasanaeth sy'n ystyried amgylchiadau unigryw pob unigolyn. Rydym yn sicrhau bod pawb, waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau, yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg, gan gydnabod yr angen i deilwra ein hymatebion i anghenion unigol er mwyn sicrhau ein bod yn deg ac yn barchus.
- Rydym yn deall ac yn cydnabod y gall pobl ymateb yn wahanol i'r un sefyllfa.

Rydym yn ofalus i gydnabod a rheoli ein rhagfarnau, fel nad ydynt yn ein hatal rhag ymgysylltu â phobl ag anghenion a phrofiadau gwahanol yn gyfartal ac yn deg.

### Gwasanaeth Cyhoeddus

- Pan fyddwn yn cael ein cymell gan wasanaeth cyhoeddus, rydym yn parchu'r awdurdod a'r dylanwad a roddir inni gan ein rôl mewn cymdeithas a'r cyfrifoldeb sydd gennym wrth ddefnyddio ein pwerau plismona. Rydym yn defnyddio'r pwerau hynny yn gyfreithlon, yn gymesur a phan fo angen.
- Wrth i ni ymdrechu i helpu i gyflawni canlyniadau da i'r cyhoedd a wasanaethwn, rydym yn ceisio dod o hyd i gyfleoedd i ddysgu a gwella ein hunain fel gweithwyr proffesiynol. Rydym yn myfyrio ar ein gweithredoedd a'n penderfyniadau i weld beth allai gael ei newid i wella'r gwasanaeth a gynigiwn i'r cyhoedd.
- Mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau ein bod yn gweithredu er budd gorau cymdeithas gyfan. Mae gwella diogelwch a lles y cyhoedd yn sail i bopeth a wnawn. Rydym yn ymateb i gymunedau gwahanol, gan ystyried eu hanes a'u profiadau gan gynnwys trawma ac anffawd.

# FFRAMWAITH CYMHWYSEDD A GWERTHOEDD

Mae 6 o gymhwyseddau yn y FCG




### Rydym yn emosiynol ymwybodol

- Rwy'n cydnabod fy emosiynau fy hun a'r ffordd y gallent effeithio ar eraill ac yn rheoleiddio hyn i ddarparu a modelu arweinyddiaeth gyson.
- Rwy'n ceisio deall dylanwadau ar ddiwylliant sefydliadol, ac yn gweithio i'w wella lle bo'n briodol trwy fodelu rôl o blismona gwerthoedd.
- Rwy'n hyrwyddo ymddygiadau a ffyrdd o weithio sy'n hyrwyddo lles ledled fy sefydliad.
- Rwy'n deall sut mae fy arddull arweinyddiaeth yn effeithio ar bobl eraill ac yn defnyddio'r fewnwelediad hwn i hyrwyddo effeithiolrwydd sefydliadol, cynhwysiant ac ymddygiad moesegol.
- Rwy'n creu diwylliant sefydliadol cefnogol a thosturiol sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi pawb.

### Rydym yn cymryd perchnogaeth

- Rwy'n hyrwyddo diwylliant o atebolrwydd personol mewn timau fel bod pobl yn ymdrechu am safonau uchel o berfformiad cynaliadwy a moesegol.
- Rwy'n rhoi mesurau ar waith a fydd yn caniatáu i eraill gymryd cyfrifoldeb yn effeithiol a'u cefnogi i wella eu perfformiad.
- Rwy'n cymryd safbwynt sefydliadol, gan gydnabod lle gellir gwneud gwelliannau a chymryd cyfrifoldeb am wneud i'r rhain ddigwydd..
- Rwy'n hyrwyddo diwylliant sy'n ymateb i gamgymeriadau trwy ddysgu yn hytrach na thrwy roi bai ar rywun.



# FFRAMWAITH CYMHWYSEDD A GWERTHOEDD (PARHAD)




### Rydym yn Gydweithredol

- Mae'n hanfodol i ni feithrin a chadw ymddiriedaeth a hyder gyda chymunedau a phartneriaid. Rhan allweddol o gyflawni hyn yw drwy'r ffordd rydym yn gweithio gydag eraill.
- Rwy'n meithrin partneriaethau cryf drwy ddod o hyd i dir cyffredin gydag eraill, cydnabod eu blaenoriaethau gwahanol a negodi'n effeithiol gyda nhw.
- Rwy'n graff yn wleidyddol ac yn deall sut mae polisi a gwleidyddiaeth genedlaethol yn effeithio ar ein partneriaid. Mae hyn yn caniatáu imi weithio'n effeithiol o fewn strwythurau gwneud penderfyniadau.
- Rwy'n cefnogi perthnasoedd â rhanddeiliaid i alluogi pethau i gael eu gwneud gan y partneriaid mwyaf priodol.
- Rwy'n creu diwylliant ac amgylchedd lle mae gweithio mewn partneriaeth yn ffynnu ac yn creu buddion pendant i bawb.

### Rydym yn Cefnogi ac yn Ysbrydoli

- Rwy'n cyfleu nodau clir sy'n rhoi cyfeiriad cymhellol i bobl o amrywiaeth o gefndiroedd gwahanol, i'w hysbrydoli i weithio tuag at y nodau hynny.
- Rwy'n rhagweld problemau a fydd yn rhwystro cyflawni ac yn dileu rhwystrau i gyflawni pethau.
- Rwy'n dangos meddwl strategol hirdymor, gan fynd y tu hwnt i nodau personol ac ystyried sut mae'r gwasanaeth heddlu'n gweithredu yn yr amgylchedd cymdeithasol ac economaidd ehangach.
- Rwy'n cyfleu sut mae'r weledigaeth gyffredinol yn cysylltu â chynlluniau ac amcanion penodol, gan ei gwneud yn berthnasol i'r gwaith y mae pobl yn ei wneud i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl.
- Rwy'n monitro newidiadau yn yr amgylchedd allanol, gan gymryd camau i ddylanwadu lle bo modd i addasu a sicrhau bod nodau sefydliadol yn cael eu cyflawni.





# FFRAMWAITH CYMHWYSEDD A GWERTHOEDD (PARHAD)

### Rydym yn dadansoddi'n feirniadol

- Rwy'n creu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi'r defnydd effeithiol o ddadansoddi a phenderfyniadau o ansawdd uchel.
- Rwy'n adnabod achosion sylfaenol, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd amwys neu aneglur, ac yn sicrhau bod fy sefydliad yn mynd y tu hwnt i drin y symptomau yn unig.
- Rwy'n defnyddio fy ngwybodaeth am y cyd-destun strategol, yr amgylchedd allanol a thueddiadau hirdymor i lywio gwneud penderfyniadau effeithiol.
- Rwy'n cydnabod y gallai rhai penderfyniadau gynrychioli newid sylweddol. Rwy'n meddwl am y ffordd orau o gyflwyno penderfyniadau o'r fath ac ennill cefnogaeth.

### Rydym yn arloesol ac yn feddwl agored

- Rwy'n gweithredu, profi a chyfleu ffyrdd newydd o weithio a all newid ein diwylliannau, ein hagweddau a'n perfformiad yn radical.
- Rwy'n creu amgylchedd gwaith lle mae dysgu arloesol a chydnabod a hyrwyddo gweithgareddau arloesol wedi'i wreiddio a'i werthfawrogi.
- Rwy'n arwain, gweithredu a gwerthuso mentrau newydd, cymhleth a chreadigol o'u cychwyn hyd at eu heffaith.
- Rwy'n datblygu a chefnogi mentrau sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid, yn creu gwelliannau sylweddol ac yn gyrru arloesedd y tu allan i'm maes uniongyrchol.
- Rwy'n gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaeth heddlu yn parhau i fod yn gyfredol ac ar flaen y gad o ran plismona byd-eang.



# TELERAU AC AMODAU'R PENODIAD

### Lleoliad gwaith

Gwneir y rhan fwyaf o'r gwaith o Bencadlys Heddlu Dyfed-Powys yn Llangynnwr, Caerfyrddin. Fodd bynnag, mae natur y gwaith yn golygu y bydd angen teithio sylweddol o gwmpas yr ardal heddlu ac yn genedlaethol.

Er mwyn sicrhau argaeledd gweithredol ac ar alwad, disgwylir i'r daliwr swydd symud i fyw i'r ardal heddlu o fewn 6 mis ar ôl cychwyn y swydd. Does dim rhaid i hyn fod yn gartref teuluol parhaus.

### Oriau gwaith

Ni fydd oriau gwaith yn llai na 40 awr yr wythnos. Byddwch chi'n gweithio'r oriau sydd angen ar gyfer cyflawni gofynion y swydd, yn amodol ar ofynion y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am gynrychioli'r Gwasanaeth, ac felly bydd yn ofynnol bod modd cael gafael arno 24 awr y dydd pan fydd yn Brif Swyddog Heddlu dynodedig, yn fan cyswllt. Rhaid iddo sicrhau rhannu rôl y Prif Swyddog dynodedig (pwynt cyswllt) yn deg rhwng aelodau'r Tîm Prif Swyddogion.

Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd ymbresenoli mewn digwyddiadau mawr neu ddigwyddiadau gweithredol eraill ar fyr rybudd. Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau hefyd, gan gynnwys ymbresenoli mewn cyfarfodydd a digwyddiadau yn ystod yr amserau hyn.

### Cyflog

O 1st Mehefin 2025, cyflog Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys yw £181,575.

Telir deiliad y swydd yn fisol.

### Telerau gwasanaeth

Cynigir y swydd am gyfnod o hyd at 5 mlynedd, yn amodol ar gytundeb rhwng Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl.

Dylech fod yn ymwybodol bod yn rhaid i Brif Gwnstabliaid hysbysu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn awr am unrhyw benodiadau amgen (taledig, hunangyflogedig neu ddi-dâl) am y cyfnod o 12 mis yn dilyn y dyddiad y maent yn gadael y Gwasanaeth Heddlu.

### Gwasanaeth amser llawn

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ymroi'n amser llawn i ddyletswyddau'r Prif Gwnstabl, ac ni chaiff dderbyn unrhyw swydd arall, nac ymwneud ag unrhyw fusnes, heb gael cydsyniad ysgrifenedig Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

# TELERAU AC AMODAU'R PENODIAD

### Adolygiad Perfformiad a Datblygiad

Bydd y daliwr swydd yn destun gwerthusiad blynyddol a fydd yn cynnwys adolygiad o berfformiad y daliwr swydd yn erbyn y cymwyseddau a'r atebolrwyddau ar gyfer y rôl.

### Gwyliau blynyddol

Mae gan ddeiliad y swydd hawl i wyliau yn unol â Rheoliadau'r Heddlu. Rhaid cyfleu ymrwymiadau gwyliau blynyddol i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

### Manteision a Lwfansau

Bydd y lwfansau canlynol yn berthnasol:

1. Unrhyw hawl rhent / tai a warchodir.
2. Mae Cynllun Cerbyd Prif Swyddogion ar gael, a fydd yn ddarostyngedig i dreth. Os nad yw'r daliwr swydd eisiau cymryd rhan yn y cynllun hwn, telir cyfraddau milltiredd yn unol â Rheoliadau'r Heddlu.
3. Bydd y Comisiynydd yn ad-dalu cost sgrinio iechyd preifat cynhwysfawr yn flynyddol. Hefyd, caiff Prif Swyddogion ymuno â chynllun yswiriant iechyd preifat sydd wedi'i negodi, ac a hwylusir gan y Comisiynydd, ar yr amod bod yr unigolyn yn talu'r holl gostau. Gellir ychwanegu aelodau'r teulu i'r cynllun hwn ar draul y Prif Swyddog unigol.
4. Pob gofyniad TG yn ôl yr angen e.e. ffôn symudol, dyfeisiau symudol, gliniadur ac ati (rhaid ad-dalu galwadau ffôn preifat).
5. Cerdyn Credyd Corfforaethol a Cherdyn Tanwydd yr Heddlu (rhaid ad-dalu unrhyw wariant a milltiroedd personol, gan gynnwys teithio o'r cartref i'r gwaith).
6. Telir elfen yswiriant atebolrwydd cyhoeddus tanysgrifiad Cymdeithas Staff Prif Swyddogion yr Heddlu.

### Adleoli

Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn cydymffurfio â Rheoliad 35 Rheoliadau Heddlu 2003 fel y'u diwygiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â threuliau adleoli. Mae angen i'r ymgeisydd fod yn ymwybodol bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn trin taliadau o'r fath fel budd trethadwy. Y swyddog unigol fydd yn gyfrifol am hyn.

### Terfynu penodiad

Gellir terfynu'r penodiad drwy roi rhybudd chwe mis ar y naill ochr neu'r llall, ac eithrio yn achos ymddeoliad, pan ganiateir rhoi'r rhybudd statudol.

# Y BROSES RECRIWTIO

## Amodau eraill

Cynigir y swydd yn unol â Rheoliadau'r Heddlu ac unrhyw Ddeddfau, Rheoliadau neu ofynion a fydd mewn grym.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn gyflogwr Cyfle Cyfartal, ac yn croesawu ceisiadau oddi wrth ymgeiswyr gan ddiystyru eu tarddiad ethnig, cred grefyddol, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ac anabledd.

## Amserlen

**Hysbysebu – Gorffennaf 24, 2025**
**Dyddiad cau – 5yh, Awst 29ain, 2025**
**Rhestr fer – Medi'r 8fed, 2025**
**Cyfnod cyfarwyddo – O Medi'r 9fed, 2025**
**Asesiadau a cyfweliadau – Medi 22ain a 23ain 2025**
**Cyfarfod cadarnhau Panel Heddlu a Throseddu – Hydref 7fed 2025**

## Sut i ymgeisio

**Sicrhewch eich bod chi'n cwblhau'r canlynol erbyn 6 Gorffennaf 20215yh Awst 29ain, 2025:**

1. **Y Ffurflen Gais sy'n mynd i'r afael â'r cwestiynau a holir ar gyfer arddangos eich addasrwydd.**
2. **Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal**

Wrth gwblhau'ch ffurflen gais, dylech roi sylw priodol i'r canllawiau o fewn y ffurflen gais.

Mae'n hollbwysig eich bod chi'n agored ac onest gyda'ch atebion. Mae angen i dystiolaeth fod yn benodol, gan ganolbwyntio ar eich cysylltiad, profiad a gweithredoedd personol. Rhaid i'r dystiolaeth yr ydych yn ei chyflwyno ddod o'r tair blynedd ddiwethaf. Mae llwyddiant eich cais yn dibynnu ar i ba raddau y mae'ch tystiolaeth yn berthnasol i'r maes cymhwysedd.

Hysbysir ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer erbyn 5 o'r gloch nos Lun 8 Medi 2025 fan pellaf. Ar ôl i'r rhestr fer gael ei llunio, gwneir trefniadau ar gyfer gweithgaredd ymgysylltu i'ch helpu i baratoi ar gyfer eich cyfweliad.

## Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r swydd hon, cysylltwch â:

Carys Morgans
Ffôn: 01267 226440
E-bost: carys.morgans@dyfed-powys.police.uk

# Y BROSES RECRIWTIO

### Y broses recriwtio

Rhaid cyflwyno ceisiadau'n electronig gan ddefnyddio'r ffurflen gais a ddarperir i carys.morgans@dyfed-powys.police.uk.

Peidiwch â chyflwyno'ch Curriculum Vitae gan na fydd yn cael ei ystyried. Mae hyn er mwyn ein galluogi i ystyried pob cais ar sail gyfartal.

**Ni dderbynnir ceisiadau ar ôl yh ar Awst 29ain, 2025.**

Rhaid i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw euogfarnau troseddol nas dilëwyd, yn ogystal ag unrhyw ymchwiliadau neu brosesau disgyblaethol sydd ar y gweill ynghylch eu hymddygiad. Ar ben hynny, rhaid i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw droseddau disgyblaethol yn y gorffennol nas dilëwyd.

### Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'n ofyniad sylfaenol bod y broses benodi'n hyrwyddo, yn dangos, ac yn cynnal cydraddoldeb o ran cyfle a thriniaeth pob ymgeisydd. Rydym wedi ymrwymo i benodi ar sail teilyngdod, mewn modd teg ac agored.

### Aelodau'r Panel Dewis

Bydd y Panel Dewis ar gyfer y swydd hon yn cael ei gadeirio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a bydd yn cynnwys Mike Connolly – Llywodraeth Cymru, Wendy Walters – Prif Weithredwr Cygnor Sir Gar, Iwan Thomas – Prif Weithredwr Planed a'r aelod annibynnol, Naomi Alleyne. Bydd y Panel hefyd yn derbyn cefnogaeth y Prif Weithredwr y Coleg Plismona, Syr Andy Marsh fel yr Ymgynghorydd Plismona.

### Sut gaiff eich cais am y swydd Prif Gwnstabl ei drin ar ôl inni ei dderbyn?

Asesir y cais gan y Panel Dewis ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd i ystyried a oes gennych y sgiliau, gwybodaeth, a phrofiad sydd eu hangen ar gyfer y swydd. Bydd y Panel Dewis yn penderfynu a fydd eich enw'n mynd ymlaen ar gyfer cyfweliad.

Hysbysir pob ymgeisydd na ddewisir ar gyfer cam nesaf yr asesu am ganlyniad ei gais mewn ysgrifen, a gellir gofyn am adborth.

# Y BROSES RECRIWTIO

### Cyfweliadau - ad-dalu treuliau

Cewch hawlio treuliau rhesymol am ddod i'r cyfweliad. Disgwylir ichi ddefnyddio'r dull teithio mwyaf effeithlon a chynnil, ac fel arfer, cyfyngir unrhyw ad-daliad i'r swm hwnnw. Pan fydd angen aros dros nos, gall SCHTh drefnu hynny, a chynhwysir manylion gydag unrhyw wahoddiad i gyfweliad.

### Beth fydd yn digwydd yn y cyfweliad?

Darperir manylion pellach i'r ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer gan y Panel Dethol.

### Beth fydd yn digwydd ar ôl y cyfweliad?

Bydd penodiad yn amodol ar gwblhau asesiad meddygol yn llwyddiannus.

Byddwch chi'n ddarostyngedig i gliriad diogelwch, Fetio Rheoli lefel Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Fetio Datblygedig, sydd angen parhau'n ddilys ar gyfer hyd y penodiad.

Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n penodi'n amodol ar wrandawiad cadarnhau a elwir gan y Panel Heddlu a Throseddu. Disgwylir i'r ymgeisydd o ddewis fod yn bresennol yn y gwrandawiad hwn.

